

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	18 Chwefror 2025
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cyngorydd Julie Matthews / Kevin Roberts
Pennaeth Gwasanaeth	Ann Lloyd, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Digartrefedd
Awdur yr Adroddiad	Kevin Roberts, Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol
Teitl	Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 23/24

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

I ddarparu Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Cabinet. Mae'r Llythyr Blynyddol yn ymwneud â chwynion a dderbyniwyd am y Cyngor, Aelodau a Chynghorau Tref, ac yn meincnodi perfformiad Sir Ddinbych yn ôl perfformiad holl Awdurdodau Lleol eraill Cymru.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae gan yr Ombwdsmon rwymedigaeth statudol i adrodd wrth Awdurdodau Lleol am ei ymyriadau yn y meysydd adrodd. Cyflwynir yr adroddiad hwn i Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn flynyddol, ac mae yna gamau gweithredu penodol y gofynnir amdanynt yn Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â pha Bwyllgorau'r Cyngor y dylid adrodd amdano wrthynt.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cabinet yn ystyried y data yn y llythyr, ynghyd â data'r Cyngor, i ddeall mwy am berfformiad ar gwynion, gan gynnwys unrhyw batrymau neu dueddiadau a chydymffurfiaeth y sefydliad â'r argymhellion a wneir gan yr Ombwdsmon.
- 3.2. Eich bod yn cytuno bod unrhyw ystyriaethau a chamau a gynigiwyd o ganlyniad i Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael eu hadrodd yn ôl i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru cyn gynted â phosibl.

4. Manylion yr adroddiad

Atodiad 1 Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023/24

- 4.1. Mae Sir Ddinbych yn eistedd yng nghanol Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru yn nhermau cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon am bob 1,000 o breswylwyr.
- 4.2. Dim ond 6% o'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon gafodd ymyriad, ac ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad llawn.
- 4.3. Mae adroddiad Eich Llais, sy'n nodi'r cwynion a'r canmoliaethau a dderbyniwyd trwy'r broses gwyno statudol a chorfforaethol wedi'i atodi yn Atodiad 2. Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r Pwyllgor Craffu bob chwarter ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn (Tachwedd 2024). Ni fyddai'r adroddiad fel arfer yn dod i'r Cabinet ond mae'n rhoi cyd-destun i Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- 4.4. Yn ystod 2023 / 2024 gwnaeth yr Ombwdsmon 6 argymhelliad i Sir Ddinbych, a bu i ni sicrhau cyfradd cydymffurfio o 67%. Dim ond un argymhelliad a wnaed pan na wnaethom gwblhau'r argymhelliad o fewn yr amserlen benodol, ac roedd hwn yn fater a oedd yn ymwneud â'r Gwasanaethau Addysg. Argymhelliad yr Ombwdsmon oedd aralleirio polisi, ond nid oedd modd bodloni'r terfyn amser oherwydd y prosesau sydd ynghlwm â chyflwyno newidiadau i bolisi deddfwriaethol ac yna cyflwyno'r newidiadau hyn i'r wefan. Llwyddwyd i gwblhau'r argymhelliad ond roedd yn disgyn o dan y cyfnod adrodd 2024 / 2025.
- 4.5. Ni chadarnhawyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- 4.6. Ni chadarnhawyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Cyngor Tref.
- 4.7 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Tachwedd a gofynnwyd bod nifer o newidiadau yn cael eu gwneud / gwybodaeth ychwanegol yn cael ei ychwanegu at adroddiadau yn y dyfodol. Byddwn yn sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn Adroddiad nesaf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2024/2025 a fydd yn mynd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet yn yr Hydref 2025.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

Mae gweithdrefnau cwyno'r Cyngor yn cyfrannu at flaenoriaeth gorfforaethol Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r holl gostau sy'n ymwneud ag adborth cwsmeriaid yn cael eu hamsugno o fewn y cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Adroddiad perfformiad yw hwn ac ni cheisir unrhyw benderfyniad er mwyn gwneud unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar staff neu'r gymuned. Felly, nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu er gwybodaeth ac mae wedi'i anfon at y Prif Weithredwr.

8.1. Mae proses gwyno'r Cyngor yn amodol ar graffu bob chwarter a bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth yn y Cyfarfod Craffu nesaf.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn codi o'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Ymyrraeth bellach gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os nad yw'r argymhellion yn cael eu dilyn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Mae adrannau 7.3 a 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu cylch gwaith y Pwyllgor a'i bwerau o ran perfformiad Gwasanaethau